

2025 Rhif (Cy.)

2025 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042
(Cylchfan Mamheilad, Torfaen i
Lôn Croes-y-pant, Penperllenni, Sir
Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya
Dros Dro) 2025

The A4042 Trunk Road (Mamhilad
Roundabout, Torfaen to Croes-Y-
Pant Lane, Penperlleni,
Monmouthshire) (Temporary 50
mph Speed Limit) Order 2025

Gwnaed 16 Gorffennaf 2025

Made 16 July 2025

Yn dod i rym 19 Gorffennaf 2025

Coming into force 19 July 2025

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A4042, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd er mwyn sicrhau diogelwch ar y ffordd.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A4042 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be restricted in the interests of road safety.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Mamheilad, Torfaen i Lôn Croes-y-pant, Penperllenni, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Gorffennaf 2025.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A4042 Trunk Road (Mamhilad Roundabout, Torfaen to Croes-y-Pant Lane, Penperlleni, Monmouthshire) (Temporary 50 mph Speed Limit) Order 2025 and this Order comes into force on 19 July 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw—

Interpretation

2. In this Order—

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1); a
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A4042 Casnewydd i Amwythig;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o Gefnffordd yr A4042 sy'n ymestyn o bwynt 15 metr i'r de o linell ganol ei chyffordd â'r ffordd ymyl o'r enw Lôn Croes-y-pant hyd at ei chyffordd â phrif gerbyttffordd gylchredol Cylchfan Mamheilad.

Cymhwyso

4. Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Atal dros dro

5. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1); and
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A4042 Newport to Shrewsbury Trunk Road.

Restriction

3. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour on the length the A4042 Trunk Road that extends from a point 15 metres south of the centreline of its junction with the side road known as Croes-Y-Pant Lane to its junction with the main circulatory carriageway of Mamhilad Roundabout.

Application

4. The restriction in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Suspension

5. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the length of the trunk road specified in this Order are suspended during such times as the restriction specified in article 3 is in operation.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefinol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

16 Gorffennaf 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Thrafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order is 12 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for the Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

16 July 2025

Nicci Hunter
Business Team Leader
Transport
Welsh Government